

EdrychYnOl
(20231230)

Hiraethwyf yn yr eithin - ni fynwyf
Nwyf estron gynefin
Na hir oes, na siwgr eisin,
Na chyffyrddiad profiad prin.

(Eistedd yn gynnes braf yn y ponsio, yn y glaw mawr ar y Silff, a meddwl.)

Adfail
20231230)

Nam yw hwn ar ben mynydd - ol y foel
A falwyd heb rhybudd;
Her a ffawf ai colli'r ffydd
A dewodd orsaf dywydd?

(Yr orsaf dywydd wedi diflanu o Foel Acre.)

Gobaith
(20231230)

Yn nagrau'n byd unigryw - na foddwn,
Feddwon, yn y dilyw!
Nid rhinwedd oes troi'n ddistryw!
Ewyllys da yw llais Duw!

(Rowan Williams yn ysgrifennu yn y Guardian.)

LlanfairME
(29231227)



Yn awr, dringaf yn araf i wynfe
Llanfair ganol gaeaf;
Hoff lecyn pen bryncyn braf
Yw nyth Mathafarn Eithaf.

(Rhedeg o B 'ddoe.)

Calan
(20231226)

O fore, dyma fwriad - goleuddydd
Rhag cerydd, creu cariad
Dros y dolydd brau, hau had
Heddwch ac adnewyddiad.

Dymuniad
(20231224-25)

Gorau gyngor, hawlio'r hedd - gostegu,
A mynu amynedd;
Tewi cecru, claddu cledd
A nofio mewn tangnefedd.

IBobtu
(20231223)

Rhiniog ŵyl, seren gwelir - dyfodol
Y dynol adweinir;
Gorymdaith gobaith genir:
Credwn hoen cariad yn wir.

(Gwyllo "Love Actually" am y milfed tro.)

Narozenininininy
(20231222)

Awen bair hwyl, sbort a sbri - yn arlwy
O fwrlwm merch *twenty*;
Ond profiad nawr 'sgan Cadi,
Eithr hon sydd yn *thirty-three*!

(Penblwydd K.)

RhedegCynDolig...
(20231222)

Ond eiddo'r dydd ei hyrddiadau - y glaw
Yn glec ar y caeau;
Chwim heulwen a chymylau
A chrio brwydro'r coed brau.

(Gwynt mawr am ddyddiau nawr.)

YNadolig
(20231220)

Trefn y moddion, rhoddion rhwydd - aur, arian
Gan genad bytholrwydd;
Dydd gwyn o gelyn a gŵydd
A chalan dan uchelwydd.

Llanast
(20231219)

Helynt dewis rheolwyr chwarae gwyw
Heb 'run llyw na llewyrch;
Lleddf yw traw alaw'r Elyrch
Pa hawl creu'r fath gawl o gyrch?

(Y Swans mewn picil unwaith eto.)

GerYDŵr
(20231219)

Â chân daw'r Twrch awenog, y Tawe
A'r Tywi odidog;
Dŵr y Clwyd a'r Clywedog;
Ffrydiau arian ein Na Nog.

(Dod lan o'r De 'ddoe, a rhedeg i Rewl heddi', a meddwl.)

Antur
(20231219)

Mwyn yw heddwch pen mynyddyn, lle neis
Yw Llanon i'r noethlun;
'Nol i'r nyth, 'nol i Ruthun
A dawns lon peldroed nos Lun!

(Gwyliau wedi dechrau 'ddoe! Mynd i ben y Daren Wyddon yn y bore, oifad yn y môr yn Llanon yn y prynhawn, a chwarae peldroed yn Rhuthun gyda'r nos!)

'Fory
(20231218)

Yn y bore, dy berwyl yw neidio
Dros nodyn ac egwyl
Cyffro'r piano anwyl:
Pasi di, Hari, pob hwyl!!

(H. ag arholiad piano 'fory.)

PwyAŴyr
(20231218)

O ryfeddol dystiolaeth - er amau'r
Holl orau o hiraeth
Am adnabod duwdod daeth
Anrheg seiniau'r gwasanaeth.

(Gwasanaeth Nadolig hyfryd yn y capel 'ddoe.)

Bendith
(20231216)

Gorau gardod, syndod saint - cyfarfod
Cysgod Caer a henaint;
Cenadwri, bri a braint
Dathlu cwr dathla ceraint.

(Rhai o fois MM yn mynd i ganu i gartrefi henoed nos lau.)

AThAM
(20231215-16)

Siwr rhodd i bob un seryddyn â'n hen
'N awchu gwên bachgenyn:
Eli hedd diwedd 'flwyddyn
Yn odlau cun 'Dolig Gwyn.

(Penblwydd, a'r 'Dolig yn dod!)

M3
(20231214)

Camp teithio i Southampton â gofal
Er cynal amcanion;
Hynod wawr ar fin y don
Egyr hwyliau'n gorwelion.

(Taith hyfryd lawr i Southampton.)

DrW
(20231211)

Nef yw afon o fyfyr i noddyn
Llosgfynyddoedd difyr;
Nofio dyfal lafal lŷr:
Da waith, da daith ein doethur!

*(Heaven is a river of meditation to the depths
Of intriguing volcanoes;
Swimming constantly in a laval sea:
Good work, good journey, our doctor!)*

(E yn graddio!)

Carco
(20231211)



Y sail oedd cadw ei sylw â thaith
I Borthaethwy acw;
Gorau hwyliau'n gwir elw:
Dawnsio'i *hippo Doctor Who!*

(Treulio'r diwrnod 'ddoe yn gwarchod D. Mynd ar y bÿs i Borthaethwy, cerdded i Ynys Tysilio a bwyta brechdan *ham* wrth lanfa San Siôr! Ar ol dod adref, gweld fideo newydd i ddathlu ail-ddyfodiad *Doctor Who*, â D yn meddwl taw *hippo* oedd brenin yr elyllod, "the Goblin King"!)

CylchYCeugant
(20231209)

Braw 'di gweld dibendrawdod - ynfytyn
Dyn dan bwys syfrdandod;
Heb 'run plan, amcan na nod,
Wynebwn yr anwybod.

CarwchEichGilydd
(20231205)



Gwegiwn dan aeaf gwagedd - misoedd moel
Anhygoel unigedd;
Chwiliwn awen heulwen hedd
I garu hin gwirionedd.

(Cofeb Jan Hus ym Mhaha: "milujte se, pravdy každému přejte"; "carwch eich gilydd, dymunwch y gwirionedd i bawb.")

VánočníTrhy
(20231203-08)



Dyma olud *Ludmila* - sgrym aerol
Sgwâr *Miru*'n croesawa;
Rhanu'r oriau'n yr eira:
Cydfod yw defod y da.



Lle difyr yw ffreutur ffraeth - chwe chanrif
O lif cyfalafiaeth
Yng ngwin Sgwâr y Weriniaeth;
Mewn gwledd o fedd, dyma faeth!



Rhiniog alaw'r hen garole - hanes
Y Geni, ac wele!
Cwr y Nadolig gore:
Daw'r ias ar Sgwâr yr Hen Dre'.



A dacw'r godidocaf - lle gwiw, lliw
A llewyrch Sgwâr *Vaclav*;
Ein dewis, marchnad aeaf,
A'i hawydd fel hirddydd haf!

(Dathlu Gwyl Sant Niclas ym *Mhaha*.)

MrMorgan
(20231202)

Hedd hudol gyffyrddiadau ag awen
Gwead ei batrymau;
Cydnabod cyfnod yn cau,
Noson â Rob yn eisiau.

(Cinio peldroed neithiwr ag un amlwg yn eisiau.)

Fel'naMae
(20231201)

Gwraidd digymar embaras bo edrych
I bydredd cymdeithas
Yn daeog i'r geiniog gas,
Gwraidd aflwydd a'r gwir ddiffas.

(Mae'n blaenoriaethau o chwith go iawn.)

Drwy'rNiwl
(20231129)

Pellenig, anelwig nen sy'n argáu
Hoff erwau'n daearen;
I'n lloni er llwydni'r llen,
Daw'r arian hael drwy'r niwlen.

(Bore bendigedig o niwl a'r haul yn tori trwyddo.)

Carco
(20231128)

Mynd, mynd a mynd mewn syndod yw awydd
Diddiwedd bachgendod!
Dala'r un eiddgar yw nod
Gorchest Penwythnos Gwarchod!

(Carco D dros y penwythnos!)

TinselArYGoeden
(20341125)

Pa wrda daw i'n hadwy rhag artaith
Rheg hurtwch tra thrylwyr,
Rhag rhaglen sen i'n synwyr?
'Nabyddwn Hwn, pwy a wŷr?

(Gwneud trefniant a-capela ar gyfer y cwrdd Nadolig.)

Gras
(20231124)

I ba le ar ddiwedd blwydd yn dilyn
Nadolig heb arwydd?
Camau caenaf, sicraf swydd
Dilyn anrheg bodlonwydd.

(Darllen am "*The Rare Jewel of Christian Contentment*", ysgrifennwyd gan Jeremiah Burroughs yn 1643.)

U-N-O-L
(20231123)

Yn y gwely, 'runig eiliad i gael
Gweld ei ymddangosiad;
Hel awen olau leuad
A'i drysor ar liwio'r wlad.

(Lleuad dlos neithiwr.)

Acen
(20231122)

Hen acen swynai acw - rhodd o gân,
Cerdd a gwên ce's neithiwr
Gan ffynon atgofion gŵr
A'i neges o Lan Ogwr.

(Siarad 'da dyn o Flaendulais oedd yn canu 'da Chôr Meibion Pen Y Bont Ar Ogwr yn Ninbych nos Sadwrn.)

Gwag-Ysbrydion
(20231118)

Uffern crafangau'n cyffion - wynebwn
Anobaith atgofion
Cwpled ola' difa'r dôn
A gwg y seddi gweigion.

(Chwarae *Empty Chairs at Empty Tables* o *Les Miserables* neithiwr ar y piano, a gwylio Eddie Redmayne yn ei ganu'r bore 'ma.)

PorthNabla
(20231117)



Bachu'r undeb â chryndod - awchu meirch
Y môr daw i'm c'farfod
A ias egwyl o swigod ...
Bywhad yn oifad yw'r nôd!

(Oifad ym Mhorth Nabla ddydd Mercher.)

SB
(20231115)

Ar elor hedd y gwledda - fel asid
Coed rhyddid budredda;
Creu helynt bodd *Cruella*
Ddirmygus, â'i blys yn bla.

YTŷGolchi
(20231112)



Gweithgar o gynar gwni - hal' oriau
Yn cliro'r tŷ golchi
Heb ddonto nes cymoni'r
Aniben, da'n hawen ni!

(Cymoni'r tŷ golchi yn GG.)

Gaza

(20231108)

O siriolaf *Isreali* - mynn eiliad
Uwch enwad a chyni
Mawr dy drallod i nodi
Mai dy bla sydd dda i ddim.

(Isreal yn ymosod ar Gaza fel pla, ar ol i Hamas ymosod ar Israel.)

Cirque

(20231105)

Creu paradeim drwy feimian yng ngwynfyd
Y joclyd â'u jyglan,
Genod â'u nod fry'n hedfan,
A'r gwŷr â'u bryd, twlu tân.

(Mynd i weld *Cirque* yn Llandudno gyda J. a K.)

SerenLoyw

(20231104)

Anrheg noeth ar loerog nos - o'r tu draw
Daw y duwiau'n agos;
Ias sawdd heddwch si ddiddos
Rhin dy lais, o seren dlos.

(D. yn son am Keats "Bright Star" yn Iwerddon.)

PrisDisgyblaeth

(20231104)

Cans fyrdd yw'r ffyrdd at urddas bywiol lith
Camau dith cymdeithas;
Cymuno'n wên cymwynas:
Gorau greddf byw'r gwir â gras.

(Darllen mwy am Bonhoeffer.)

Môn

(20231103)



Gweld yn gall, edrych allan o haul lleyg
Tal y Llyn i Gwyfan;
Crescendo curo Ciaran
Ac arlwy wyllt ger y lan.

(Mynd i weld capel bach Tal y Llyn ger Aberffraw, sydd bellach dan ofal y lleyg "ffrindiau i gapeli heb ffrindiau" ac oifad ym Mhorth Cwyfan â storom *Ciaran* ar ei ffordd, bore Mercher.)

Tachwedd

(20231101)

Bywyd caeth ar ei waethaf - llwydni'r wawr
A'r awr try'n araf;
O gïaidd Galan Gaeaf
A welwn wên Calan Haf?

(Y gaeaf wedi dod).

Cathair na Mart

(20231029)



Bo rhyddid i lwybreiddio yn harddwch
'Werddon unwaith eto;
Cân llawn tân i godi'r tô,
Adwy at mwy ym *Mayo*.

Troi cyflwyniad yn bader eiliadau
Fel oedi llif amser,
Am rhoi'r hedd ar donfedd dêr
A chyni *Danny*'n dyner.

Eco atgof diwedd cytgan fel rhaidd
Dros euraidd dir *Eireann*;
Gwŷr seingar, chwi Fois Marchan:
Magwyd o Glwyd hawddgar *Glân*!

(Penwythnos i'w gofio yn Westport, Swydd *Mayo*. *Cathair na Mart* (Tre'r Feiriau) yw'r Wyddeleg am Westport. *Clân Marchan* byddai Meibion Marchan. Fe ganasom "Rho i'm yr hedd" a "Danny Boy" yno.)

DŵrLlangywair

(20231025)



Yn glyd, 'rol dangos glewddid - grwndi
O gryndod a gefid
O gawell oer argae llid:
Digon eiliad o Degid!

(Mynd i oifad yn Llyn Tegid ger Llangywair.)

Wicked

(20231024)

Yn nicter rhyw gân actol - daw neges
Hanes merch ddewinol;
Un mewn gwyrdd try o'r ffyrdd ffol
Â'i gwenau tra gwahanol.

(Mynd i weld *Wicked* yn yr *Appollo* ger gorsaf Victoria yn Llundain.)

Tafodau



Sgwrs gyne ei hanwes yno - 'da'r gwynt
Per hynt esperanto'n
Lif araf, ceinaf i'r co',
Byw alaw Portobelo.

(Mynd i Lundain a cherdded drwy Notting Hill a chlywed pob iaith dan haul!)

Argentina!

(20231015)

Dyma gur i bur a'i bau - awch antur
Archentwr o'r dechrau
Â'i ddynion o frwydro'n frau
Yn wawd o gamsyniadau.

(Bois Cymru ddim ar eu gorau'n colli i'r Arianin.)

Wedi'r Gwllaw

(20231013)



Geiriau llif dros cored gerllaw - o lif
Â'i lefain mwyn-gystraw'n
Lif dyfal Tawe'n alaw
Mor glir, mor glir wedi'r gwllaw.

(Gwllaw mawr drwy'r dydd, ond mynd i rhedeg heno yn y gwyll ac roedd hi'n fendigedig!)

YFfordd

(20231011)

O! Dy waith fel golau dydd - rhyw ddwystr
Rhydd ystyr ac awydd
I enaid ffol ganfod ffydd
Drwy ddianc crafanc crefydd.

(Dal i ddarllen am syniadau Cristnogaeth neu ffydd "di-grefydd" Bonhoeffer.)

YTôri

(20231007)

Gau dranc un sy'n dianc o'r da - esgus
Dros ffasgiaeth a grea;
Drwy apêl hyll daw â'r pla
I'r top drwy ori twpdra!

*Hac a'i luniaeth torcalonus - collwyd
Y call yn ffau'r gwallus;
Aer i dwyllo'r deallus
Â beunydd ar drywydd drys.*

Sen oed ei swm di-syniad - o'i gecru
Â'n 'fory'n ddi-fwriad;
O'r duwch oer, daw iachad
Med amlwg gydymdeimlad?

(Darllen am lythyron Bonhoeffer o'r carchar. Mae'r gyffelybiaeth rhwng cyfnod ffasgiaeth Ewrop â'r byd sydd ohoni yn frawychus: <https://youtu.be/ww47bR86wSc?si=EC4TorR7kE9kHlib> .

A dyma'r hyn a ddywedodd Rafael Behr yn ddiweddar yn y Guardian am gynhadledd y Toriaid:

The spectacle that has unfolded in Manchester this week is not just the endgame of a tired government. It is the late stages of moral and intellectual putrefaction. It is a once great party, hollowed out by a parasitical protest movement, collapsing into a parody of itself. Except nothing about it is funny for as long as the Conservatives are still in office and able to dictate the terms of national debate. There is something corrosive of democracy in the obligation to take seriously a party that has given up on serious government. And there is something disturbing about a regime that is too ridiculous to trust with power yet is too powerful to be written off with ridicule.)

Bywyd?

(20231006)

O beryg, beryg un bore'n ffoi aer
'Da ffured i'w gorffen;
Cae'r mud, â'i bywyd ar ben,
Gwaun angau'r hen gwningen.

(Dyn yn hel a lladd y cwningod ar y ddol gyda ffured.)

Sgwrs

(20231004)



Es eto draw i Borth Swtan - eto
Â natur yn clebran:
Ochain gwynt a'r meirch yn gân
A miri sisial marian.

(Oifad yn y môr ym Mhorth Swtan.)

Carco

(20231002)

Y gwamal yn dygymod - enill lle,
Dal yn llaw plentyndod;
Treilio'r dydd er budd y bod
Anwyl, gorchwyl y gwarchod!

(D. ar ei slîpofÿr cyntaf yn Rh.)

YBywydGorau

(20230930)

Angerdd dros fywyd cyngan - beunydd her
Byw yn dda yw d'amcan
A thôr Duw lôr yn darian:
Cred eglured ysbryd glân.

Wetsiwt

(20230928)



I'r ucheldir, Medi'r mis a nofio
Am nwyfau fy newis
Â difyr ddawns dyfroedd is
Un bore yn Llanberis!

(Oifad yn y gwynt a'r gwlaw dydd Mercher. Bendigedig!)

40-6

(20230925)



Coron i'r ciciwr cywira' - fel dur
Crefnu'r taclwyr cryfa';
Gwaith dwys: sgrymio, gwthio da!
Siwd 'di'r hwyl, bois Awstralia?

le!

(20230924)



Cyffro mentro o lan môr i ferw'n
Hyfory ar esgor;
Gwŷr dewr 'di agor y dôr
Bo engyl strydoedd Bangor.

Ffishi

(20230923)

Trwm ei glyw yw cyw y *quack* di-syniad,
Cynic reitiwala
Crea strach hurtach na'r *hack*:
Gorffen â sen mae *Sunak*.

(Y Torïaid yn mynd o ddrwg i waeth. Meddyg teulu oedd tad Sunak, a tybed pwy yw'r *hack*?)

YGalonUnigYnGalw

(20230922)

Gafael awydd per gyfleon - i'r hwyl
Ar alwad alawon;
A gawn ni siawns i ddawnsio
'Nawr, cynau tânau mewn tôn?

(Gwrando ar fersiwn Morgan Harper-Jones o "I want to dance with somebody".)

TheStatisticalProbabilityOfLoveAtFrstSight

(20230917)

Anhyfeth geneth gainaf - dyna bodd
Cydnabyddiaeth araf?
Ai clem i drawsffurfio claf
Yw lwc hynt golwg gyntaf?

(Gwyllo *romcom* ar Netflix.)

GerRhosneigr
(20230914)



Tegfan traddoda'n hanes - araith nobl
O Borth Nabla gynes,
Fel prydydd llonydd â lles
Rhagorol rwndi'r Gawres.

(Oifad yn y môr 'ddoe!)

CwpanByd-PenwythnosCyntaf
(20230911)



Cyffro paffio'r gêmâu pŵl - â'r sgiliau
Dros galon a meddwl!
Aberth er meddu'r cwbwyl
Sy'n anog y Ceiliog cŵl!

Risg ydyw taclo ar frasgam - curwyd
Curry yn y rhaglam!
Ond Saeson doeth, coeth pob cam
Â'u codl o giciau adlam.

Pleser, gwewyr didosturi - poen bol
Cwpan Byd rygbi;
Boddi wnawn, neu byddwn ni'n
Sâff o'i hejo'i dros Ffiji?

(Gemau gwych ar benwythnos cyntaf Cwpan Byd Rygbi!)

Nirfana?
(20230908)

Trenydd, tradwy, Mynwy, Môn - hin ddiiddestl,
Hin timestl yn twymo'n
Bloneg megis rheg yr lôn:
Gwawro ystyr mewn gwresdon.

(Tywydd rhyfedd. Hwyrach taw lleihau defnydd pob egni'n fyd-eang yw'r unig ateb hir-dymor,
ceisio am nirfana.)

RSS

(20230906)

Ol gwefr swynol fel y gwawn - hafaliaid,
Coflaid y gwŷr cyflawn;
Nawdd eu dysg, fel medd eu dawn:
Rhaid cofio crud y cyfiawn.

(Mewn cynhadledd ystadegol yn Harrogate.)

Cartrefle
(20230902)



Purach pob nos, pob bore yw golwg
I galon y godre;
F'Eden uwch a'm seithfed ne'
Yw'r tŷ ger glanau'r Tawe.

(Yn GG ar fore bendigedig ar ôl y gwlaw.)

DanYDoctor
(20230827)


Meddygon â'u profion praff - ag effaith
Gor gaffin eu hargraff;
Tro pendil, 'rhen Phil, am ffaff:
Dacw dy henoed dicaff.

(Mynd yn hen.)

VĚchách
(20230811)



1. Awn o'r byd i ddifyr bau - awn i'r glas
O'r glaw a brwydr oriau;
Gwylan braff uwch y gwllân brau
Am heulwen uwch gymylau.




2. Oriau adlam mewn hyfrydle - melys
Ymweled â'r hendre'
A dod ar draws naws y ne'
Yn atsain *Pardubice*.



3. Hafn o'r haid yw *Vinohrady* - o'r sŵn
Mae'r "Senedd" yn maethu
Afon lon o *piva* lu,
Dail cenedl wiw: *knedlíky*.




4. Gweld corff yng ngwedd *amorpha* - oriel liw'n
Narluniau *pan Kupka*;
Teulu'n gyngor, hwyllo'r ha'
Yn nhonig cinio *Anna*.



5. Tro hoenus *Malá Strana* - si trajekt
I *Strahov* a'i wylfa,
Most do Starého Města:
Naws anedd wen, noson dda.



6. Ar droed o'r tai i'r goedlan - hedd a rhaib
Nefoedd *rybník* arian;
Crwydro'm mēr cwr adar mân
Yw crefu alaw *Skřivan*.



7. At ing, ar lanau tynged a'r gytgan
Yn wan ar drai'r uned;
Ar drai tras daw gras drwy gred
Yn y gwyll, yn y golled.

8. Rhydd chwiliad am guriad gwell,
Gwir Dduw, i'r byw â bwyell.
Cymro o'i wylltio'n hollti
Â'i draw hen foncyff yn dri!



9. O 'meic! Fe awn am acw,
Afiath daith *do Újezdu*;
Esgus i brynu *housku*
Yw'n cais am ddeg *rohlíků!*



10. Awr y waith anturiaethu - hafaidd hin
Rhin Cwm *u Berounky*;
O'r wig ger *Rozvedčíky*
Cored aur y cwrw du!



11. Rhyfedd lyw'r dyfroedd byw di-baid - a da'r
Dŵr i bwylllo'r enaid;
Ne'r nôd, pysgodyn ar naid;
Gwên heulwen a gwenoliaid.



12. Swyn yw byd yw noson bêr - gori tôn
Ger y tân 'rol swper
Â geirfa fflamog arfer
Ein dawns hwyr o dan y sêr.



13. I encil uwch y *Berounka* - nefyn
Ger afon am oedfa;
Celu'n *Čertová Skála*
Er englyna'n huan ha'.



14. Oedi'n eisiau dinesig giniawfwyd:
Nwyd decaffinedig
Goffi, teisen arbenig;
Cofio wnawn am *Rakovník*.



15. O fyd amser-ofodol - mae'n cwys
Mewn cyswllt difrifol;
Noeth yw ffawd damcaniaeth ffol,
Gwir Dduw, mae'n llyw'n anlleol.



16. Odlau hin hen goedlanau yn eisie
Hedd *Krašov* a'i lwybrau;
O'r brig uwch y muriau brau
Eco crwydr y *kayakau*.

17. Uwch y taw mae'r fforchau tân yn lledu
Mewn llwydaidd gyflafan
Dros y tir â drys taran:
Awchwn wlaw i'n golchi'n lân.

18. Efail, o dyn hafaliadau - yw pau
Â'i thônau ffwythianol;
Nid syml cytganau aml ol
Ar dânau'r cyffredinol.



19. Fe ddringaf i'r ffurfafen - 'da'r *jasan*
Daw rheswm, cystrawen
Goleuddydd, llonydd fy llên
Yno, wrth droed yr onen.



20. Yn unig mewn coedwig gudd âf inau
At fewnol ailfedydd;
A dof ag ysbryd ufudd
I weld Duw, goleuad dydd.

21. Duw a dyn a cheindod uniad yn naws
Bri'r ysbryd a chariad;
Egwyl rhydd ei eglurhad
Yn siwr â'r golau'r siarad.



22. Dwys ofidion gwylio'n galaeth - i eithaf
Llwybr Llaethog â'm hiraeth;
Â chyffion gwyddon, rwyn gaeth
Mewn byd o'm hanwybodaeth.

23. Awenog haul yn tywynu ar lwybr
I lawr a nol 'fyny
Drwy bau o lywbrau lu
Hafanaidd barc *Podviny*.



24. Uffernol draw tra'n yr awyr yn ddrws
I ddryswch uwch natur;
Ond pos o wiriondeb pur
Maniffest myniff ystyr!

25. Daw bri o ddod i *Braha*, rhyw awydd
Am lefydd, am lafar
Y trigolion gwirion, gwâr;
Hir oes, Gymru ar wasgar!

26. Nwydau'r hwyr 'lawr yn y dre' â rhin peint
Tra'n pontio 'da ffrindie;
Yn unsain *Na Břežance*,
Hwyl iach rhoi'r byd yn ei le.



27. Esgus ffoled â ffasgaeth - gwladarwch
Fel hurtwch o'u hartaeth
Yn noddi comiwnyddiaeth
Haearngell, er gwell, er gwaeth.



28. Awn o barc *Ctirad a Šárka*, orig
Hiraeth Swper Ola',
O hafn haul a hufen ia;
Awn yn ôl i gôl Gwalia.

(1. Hedfan gyda Jet2 i *Praha*; 2. Mynd i weld y dre lle magwyd mam J; 3. Cinio nos hyfryd yn nhafarn y *Vinohradský Parlament* â haner-anifeiliad, rhai'n wyneb i waered, dros y nenfwd i gyd; 4. Mynd i weld arddangosfa *František Kupka (Amorpha yw'r llun)* yn Amgueddfa *Kampa*, a dathlu penblwydd A gyda'r nos yn *Beznoska*; 5. Wâc hyfryd - peint o gwrw du o *Strahovský Pivovar* a golyga wych o *Praha* gyda'r nos; 6. Cyraedd y bwthyn yn *Skřivan* - nefoedd - a mynd i nofio yn y llyn am y tro cyntaf; 7. Darllen "Do not go gently", a meddwl; 8. Dwy awr o dori plociau coed yn llai yn barod i'r gaeaf; 9. Mynd ar y beic i *Panoši Újezd* ac i *Pavlíkov* i brynu bara; 10. Taith ar y beic i *Rozvedčiky*; 11. Mynd i oifad gyda J, a darllen am y "primordial soup"; 12. Tân tu-fas a gwyllo meteorau gyda'r nos; 13. Beico i *Čertová skála*; 14. Mynd i *Rakovník* am fwyd a phrynu fflipfflops am 99kč; 15. Darllen am waith John Bell ac eraill, am *entanglement* a *contextuality* ym myd ffiseg. Yn syml, rhaid bod rheolau mecaneg cwantwm yn dibynnu ar wybodaeth o gysylltau na ellid eu gwahaniaethu! Boncÿrs. Mae'n debyg bod "realiti" yr unigolyn yn dibynnu ar briodweddau'r unigolyn, ac felly bod "realiti" wir yn wahanol i bob un ohonom; 16. Mynd i weld castell *Krašov* uwch y *Berounka*; 17. Tyrfedd a llyched yn y pellter yn tori'r distawrwydd, ond dim gwlaw i *Skřivaň*; 18. Darllen am waith Everitt a'r *universal wave function*; 19. Y benglin a'r cefn wedi gwella digon i redeg 5 milltir i'r onen o'r diwedd! 20-21. Rhedeg ar ol darllen am y Crynwyr; 22. Gwyllo sêr "triongl yr haf" neithiwr, â'r Llwybr Llaethog yn glir, a meddwl; 23. Nol yn *Praha*, mynd i redeg lawr i'r parc; 24. Gwyllo *Maniffest* ar *Netflix* gyda'r nos; 25. Cwrdd â GTMRh a cherdded lan i'r castell; 26. Mynd am beint gyda D a P; 27. Mynd i weld arddangosfa ar hanes *Československo* yn y pumdegau; 28. Mynd i *Vyšehrad* gyda J a A, a hedfan adref.)

Eisteddfod

(20230805-6)



Bore siom ystorom a'i stŵr - gau hynt
Y gwyntoedd a'u dwndwr;
Aflwydd ac aflwydd gyflwr
Aflan Foduan dan dŵr.

'Nawr mae'r tir yn glir a glân ger y môr,
Gwawr miri'm Moduan;
Si'r llwybrau â'u geiriau'n gân
Am orchest Meibion Marchan.

(Llwyddiant i MM.)

Viva!

(20230803)

I'r afael â'i gyfrifo o olrhain
Campws *Bailrigg eto*,
A'r llanc astudiaï rancio:
Helaeth ei ddoethuriaeth o.

(Arholiad *viva* ar gyfer doethuriaeth dydd Mawrth, yn ymwneud â modelau rancio.)

Llugwy
(20230731)



Breisglan, morlan, am arlwy a sylwi
Wedi oedi'r adwy;
Sŵn y don, moddion mwy
I'r lleygwr ger y Llugwy.

(Nofio yn y môr a meddwl am sgwrs yn y capel.)

LanYSilff
(20230727)



Ardderchog awr ar ogwydd - uwch helynt
Yn chwilio pendantsrwydd;
Natur haf a seibiant rwydd
Maes Acre, dyma sicrwydd.

(Treilio'r bore yn eistedd ar y foel dydd Mercher!)

Peris
(20230725)



Daear uwch â'i dyfnder is tra'n oifad
Tua'r nef, oasis
Rhydd ar gynfas prudd heb bris
O wyneb pur Llyn Peris.

(Mynd i nofio yn Llyn Peris neithiwr, a bwrito i swper ger yr eglwys gyda C. Nefoedd.)

YDrindod
(20230724)

Ei arddeliad deall mater - ei lwydd
Oedd i ladd â blyngder;
Dengys addug haerllug her
Y nam yn *Oppenheimer*.

Ei nam cydnabod y *Comm-ie*, cystudd
Holocost a phogram;
Ei fwriad hollti'r atom;
Ei diwmor oedd bildio'r bom.

(Mynd i weld ffilm wych Christopher Nolan am Oppenheimer. Odyw hi'n iawn i weithio'n fwriadol ar ddatblygu technoleg â'r bwriad o greu dioddefaint? Beth am AI? Neu danwydd ffosil? "Y Drindod" oedd enw'r ffrwydiad atomig dynol cyntaf yn Los Alamos yn 1945.)

ArtDeco
(20230722)



Ross a minau, dau *Amsterdam* - am awdl
Gan y *Midland* dinam;
Pedwar gwirion llon eu llam
Ar y marc draw i *Morecambe*.

(Mynd 'da DMR i Gaerhirfryn, ond dim lle yn y llety o achos seremonïau graddio. Felly noson yn hotel *Art Deco* y *Midland* yn *Morecambe*. Llawer gwell na'r disgwyll!)

Teulu
(20230720)

Magwy yw'r ddwy, a boddhad - mêl actau
Amlycter eu cariad;
Rhaid diolch, rhaid diolch, tad
Am olau eu hymweliad.

(E ac A yn ymweld o *Braha*.)

Llysi!
(20230716)



Cawn brynhawn o *mrholení* a haul
Â'r Alwen yn gloywi;
O lwyn i lwyn, swyn yw si
Y lleisiau'n casglu llysi!

(Casglu llysi gyda JETEA ger Cronfa Alwen. Pedwar tymor mewn pedair awr! *Mrholení* yw'r gair
Tsiec am wlaw mân!)